Adroddiad ar

# Ysgol Bro Helyg

Ystad Ddiwydiannol Rising Sun
Blaenau
Blaenau Gwent
NP13 3DQ

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Helyg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Helyg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 300 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 191 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 62 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 19.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 12.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 28/04/2025 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/02/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Helyg yn gymuned gynhwysol ac ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn cael eu meithrin i ddatblygu'n unigolion hyderus a chyflawn. O dan arweiniad clir y pennaeth, mae diwylliant cryf o gydweithio ymysg y staff, sy'n cyfrannu'n effeithiol at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac uchelgeisiol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymddwyn yn hynod o dda, yn dangos parch at eraill ac yn cymryd balchder gwirioneddol yn eu dysgu. Mewn diwylliant o hunanfyfyrio a chefnogaeth broffesiynol barhaus, mae staff yn gweithio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm ysgogol ac mae'r profiadau dysgu yn cynnig lefel briodol o her a chefnogaeth. Mae staff yn defnyddio cwestiynu i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion, ac mae'r cynllunio'n sicrhau dilyniant adeiladol yn eu medrau. Fodd bynnag, er bod yr adborth i ddisgyblion yn gyson, nid yw bob amser yn eu helpu i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. Drwy addysgu cadarn, mae disgyblion yn gweithio'n hyderus yn unigol ac mewn grwpiau ac mae eu syniadau yn sail i gynllunio'r athrawon. Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddatblygu'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, er nid yw hyn wedi ei wreiddio'n llawn hyd yma. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal awyr agored yn hynod o grefftus i ddarparu cwricwlwm cyffrous sy'n ysgogi chwilfrydedd ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn ogystal, mae prosiectau a chyfleoedd dysgu cyfoethog yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau digidol a rhifedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth yn y 'Y Noddfa', sef darpariaeth cyfathrebu ac awtistiaeth arbenigol yr awdurdod lleol yn hynod effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei harwain yn gadarn, gyda disgyblion yn gwneud cynnydd personol cryf yn erbyn eu targedau unigol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod yr adborth i ddisgyblion yn eu cefnogi i adnabod camau nesaf yn eu dysgu.

A2. Cryfhau’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Bro Helyg yn ysgol ofalgar a chroesawgar. Dan arweinyddiaeth flaengar y pennaeth, mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd i greu cymuned gynhwysol gyda dyheadau uchel ar gyfer dysgu a lles disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio cadarnhaol â nhw. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu 'Y Noddfa', sef darpariaeth cyfathrebu ac awtistiaeth arbenigol yr awdurdod lleol, yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r holl staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion sy'n eu harwain i ddangos parch a chwrteisi priodol at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cymhelliant cryf, diddordeb a balchder yn eu dysgu. Mae hyn yn cyfrannu at y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rheini o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn unigol, dros gyfnod. Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

Cryfder nodedig o'r ysgol yw'r cynnydd ym medrau llythrennedd disgyblion dros gyfnod. O oed cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu hyder wrth wrando a siarad yn Gymraeg. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod yn hyderus ac defnyddio ystod eang o eirfa wrth siarad ac yn eu gwaith ysgrifennu. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen. Maent yn darllen â rhuglder ac yn defnyddio strategaethau pwrpasol i ddeall ystyr geiriau, brawddegau a pharagraffau o fewn testun. Drwy hyn, mae disgyblion yn defnyddio ystod o'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus mewn amryw gyd-destun ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif cadarn ar draws yr ysgol. O ganlyniad i brofiadau a gweithgareddau dysgu diddorol a gynllunnir gan yr athrawon, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm wrth greu graffiau, dadansoddi data a datrys problemau. Yn yr arfer orau, mae lefel her y gweithgareddau rhifedd yn herio disgyblion i gymhwyso eu medrau rhif ar lefel uwch, yn effeithiol.

Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu cwricwlwm eang ac ysgogol i ddisgyblion sy'n dathlu treftadaeth unigryw'r  ardal. Maent yn arddel gweledigaeth o ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol sy'n falch o'u hanes, eu diwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn fwriadus. Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau digidol, iaith a rhifedd disgyblion yn ogystal â chyfleoedd buddiol iddynt gymhwyso'u medrau mewn gweithgareddau dysgu a chyd-destunau dilys.

Yn ddiweddar, rhoddir ffocws llwyddiannus ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o agweddau penodol o wyddoniaeth a thechnoleg. Trwy gydweithio â phartneriaid amrywiol a rhaglen o ddatblygiad proffesiynol buddiol, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymhwyso ystod o fedrau rhif a digidol mewn prosiectau diddorol a chyffrous. Er enghraifft, mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gynllunio a chreu nwyddau gan ddefnyddio argraffydd 3D yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod effeithiol.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn rhagweithiol ac yn drwyadl yn eu dulliau gwerthuso ac mae cyfleoedd priodol i holl aelodau cymuned yr ysgol, gan gynnwys disgyblion, i gyfrannu. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Maent yn ymfalchïo yn eu rôl ac yn ymweld â'r ysgol er mwyn defnyddio'r wybodaeth lawgyntaf i hyrwyddo gwelliant yn y ddarpariaeth a phrofiadau i ddisgyblion. Er enghraifft, maent yn cydweithio ag arweinwyr er mwyn sicrhau bod grantiau'n cael eu defnyddio er mwyn cynnal y ddarpariaeth dysgu allanol hynod o flaengar sydd yn yr ysgol.

### Ciplun 1 - Darparu cwricwlwm ysgogol sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r ardal allanol

Mae staff wedi datblygu'r ardal allanol mewn modd creadigol a llwyddiannus iawn i gyfoethogi'r ddarpariaeth a hybu agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu. Trwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol penodol a chydweithio rheolaidd ymysg y staff, maent wedi cynllunio dilyniant hynod effeithiol o weithgareddau dysgu i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, creadigol a rhifedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu medrau gwaith coed i greu ceir allan o bren, yn plannu ffrwythau a llysiau i'w bwyta, ac yn creu bwyd ar gyfer yr adar allan o ddeunyddiau naturiol amgylchedd yr ysgol. Mae hyn yn meithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd disgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau â'u tasgau yn yr awyr agored.

Mae diwylliant effeithiol o fyfyrio a gwelliant parhaus wedi'i sefydlu yn yr ysgol. Mae staff yn arwain ar feysydd y cwricwlwm, gan fyfyrio a cheisio cyfleoedd i wella yn gyson. Mae dysgu proffesiynol yn cefnogi blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol yn fwriadus. Mae strwythurau gwerthuso trwyadl yn galluogi arweinwyr i fonitro effaith hyn ar brofiadau dysgu, cynnydd ac agweddau disgyblion at ddysgu. Mae arweinwyr yn cefnogi staff ar lefelau gwahanol i ddilyn llwybrau hyfforddi proffesiynol buddiol.

Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r disgyblion. Mae'r addysgu'n cynnig her briodol a chyflymder addas i hwyluso'r dysgu, ac yn y rhan fwyaf o sesiynau dysgu, mae'r athrawon yn darparu'r cydbwysedd cywir rhwng her a chymorth. Mae'r staff yn defnyddio cwestiynu'n effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion ac i fynd i'r afael â chamsyniadau yn nysgu'r disgyblion yn amserol. Mae cysondeb ar draws yr ysgol yn

yr adborth i ddisgyblion. Er hyn, nid yw'r adborth bob tro'n  helpu'r disgyblion i adnabod camau nesaf yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae cysondeb pendant yn y dulliau addysgu ac mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod y dysgu'n adeiladol o fewn blynyddoedd ac ar draws blynyddoedd. Maent yn cynllunio gweithgareddau cyffrous i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ac i weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio'u dysgu ac i ddatblygu'n dysgwyr annibynnol, wedi eu datblygu'n llawn hyd yma.

Mae gan yr ysgol nifer o bwyllgorau disgyblion sydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau arweinyddiaeth a chyfleoedd i fynegi barn ar faterion sy'n bwysig iddynt. Trwy weithio ar brosiectau amrywiol, fel cynllunio llyfrgell ysgol, mae'r disgyblion yn cyfrannu'n uniongyrchol at ethos a chyfeiriad strategol yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae ymdeimlad cryf o waith tîm. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y mae staff yn cydweithio i adnabod ac i gefnogi anghenion disgyblion unigol. Maent yn adnabod y disgyblion yn hynod o dda ac yn darparu cymorth amserol a phriodol sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i ADY yn drwyadl. Mae staff yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i gynorthwyo'r disgyblion ag ADY, gan gynnwys i hybu lles a rheoli emosiynau. Mae arweinwyr yn cynnwys barn asiantaethau allanol yn effeithiol i gynllunio'r gefnogaeth a gwerthuso'i heffaith ac maent yn olrhain cynnydd disgyblion ag ADY yn fedrus.

Caiff darpariaeth dosbarth Y Noddfa ei harwain yn dda. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Ceir sylw priodol ar gyfer gwella ac mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd datblygu proffesiynol cyfoethog a pherthnasol ar gyfer y staff. Mae disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth arbenigol yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion a'u staff. Maent yn gwrtais ac yn gweithio'n hynod o effeithiol mewn grwpiau bach ac yn unigol, lle bo'n briodol. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn tuag at dargedau eu cynllun datblygu unigol. Dros gyfnod a gyda chymorth, maent yn magu hyder ac mae medrau cyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025